**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: VG/00228/17

Aelodau Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Mawrth 2017

Annwyl Aelod Cynulliad

Efallai eich bod yn ymwybodol bod Sativex® (delta-9-tetrahydrocannabinol/cannabidiol) ar gael yng Nghymru i drin sglerosis ymledol (MS).

Sativex® yw'r feddyginiaeth gyntaf sy'n seiliedig ar ganabis i'w thrwyddedu yn y DU, sy'n lliniaru sbastigedd sy'n gysylltiedig ag MS. Yn sgil arfarniad manwl gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru (AWMSG), argymhellwyd Sativex® yn opsiwn i'w ddefnyddio yn y GIG yng Nghymru, er mwyn trin MS. Cadarnhaodd fy rhagflaenydd, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, eu cyngor ar 13 Awst 2014. Mae ar fyrddau iechyd yng Nghymru ddyletswydd i ddarparu meddyginiaethau a argymhellir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) neu AWMSG i gleifion. Mae Sativex® ar gael felly i gleifion MS yng Nghymru pan fo'n addas yn glinigol.

Cymru yw'r unig wlad yn y DU lle mae ar gael fel rheol i gleifion yn y GIG. Fe'i hargymhellir fel opsiwn triniaeth er mwyn gwella symptomau mewn cleifion sy'n oedolion â sbastigedd cymedrol i lym oherwydd sglerosis ymledol, nad ydynt wedi ymateb yn ddigonol i feddyginiaethau gwrth-sbastigedd eraill a sy'n dangos gwellhad clinigol arwyddocaol mewn symptomau sy'n gysylltiedig â sbastigedd yn ystod prawf cychwynnol o therapi.

Rwy'n ymwybodol y bu peth dryswch am argaeledd Sativex® mewn byrddau iechyd gwahanol felly rwy'n falch i'ch sicrhau bod pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi cadarnhau bod Sativex® ar gael i'r cleifion MS hynny y mae'n addas yn glinigol ar eu cyfer. Mae ar gael a yw'r cleifion yn cael eu trin yn eu bwrdd iechyd eu hunain neu yn un arall yng Nghymru.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.